Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: Violet Rose

## 1) Cefndir

Comisiynwyd ADUS yn dilyn marwolaeth Violet Rose (ffugenw), merch 15 oed a gwblhaodd hunanladdiad ym mis Chwefror 2024. Bu nifer o asiantaethau'n ymwneud â hi: Addysg, CAMHS, gofal sylfaenol, yr heddlu, Gwasanaethau Plant, tai, a gwasanaethau'r trydydd sector. Amlygodd yr adolygiad nifer o gyfleoedd a gollwyd ar draws meysydd allweddol, gan gynnwys asesu'r risg o hunanladdiad, cydnabod anghenion niwroddatblygiadol, ymatebion i fwlio, ac effeithiolrwydd cyfathrebu rhyngasiantaethol. Llinell amser gyfunol fanwl, cynnwys y teulu, digwyddiad dysgu, ac adolygiad o lenyddiaeth ehangach oedd sail y dadansoddiad.

## 2) Cyd-destun

[redacted] oedd gan Violet Rose hanes atblygiadol ac emosiynol cymhleth, an gynnwys hwyliau isel hirsefydlog, orbryder, mudandod dethol, ac mddygiadau hunan-niweidiol. Roedd i mam wedi codi pryderon dro ar ôl tro nghylch awtistiaeth o oedran cynnar. r gwaethaf hyn, ni chafodd Violet Rose i hatgyfeirio ar gyfer asesiad iwroddatblygiadol tan yn hwyr yn 022, gan gael diagnosis o anhwylder ar sbectrwm awtistig wythnosau yn unig yn ei marwolaeth. Fe'i disgrifiwyd fel hywun artistig, deallus, a oedd â hysylltiad dwfn â diwylliant Coreaidd, nd a oedd hefyd yn agored i niwed yn mosiynol, yn orbryderus yn ymdeithasol, ac yn cael trafferth gyda unaniaeth a thrawma a oedd yn ysylltiedig â phrofiadau yn ei hlentyndod cynnar. Fe brofodd Violet ose fwlio ac ymosodiadau corfforol edi'u targedu hefyd ar sawl achlysur n ystod ei haddysg uwchradd.

## 3) Pwyntiau Dysgu Allweddol

Un o'r themâu arwyddocaol oedd yr oedi a rhwystrau i sicrhau asesiad awtistiaeth. Roedd diffyg cyfathrebu rhwng CAMHS a'r ysgol ac ni chyrhaeddodd llythyrau rhyddhau CAMHS y meddyg teulu. Nid arweiniodd iechyd meddwl gwael parhaus Violet Rose yn yr ysgol at atgyfeiriadau pellach at CAMHS. Ni chafodd hysbysiadau ei mam am fwlio eu rheoli'n briodol gan yr ysgol ac ni chafodd digwyddiadau aflonyddu, ymosod ac ymddygiad bygythiol eu cysylltu gan yr heddlu. Mae'r adolygiad yn amlygu bod pobl ifanc niwrowahanol yn wynebu mwy o risg o hunanladdiad, yn enwedig pan fo hynny'n cael ei gyfuno â defnydd blaenorol o glymau ac anghenion emosiynol nas diwallwyd.

## 4) Pwyntiau Dysgu Allweddol

Digwyddodd bwlio y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, ond roedd cofnodion ysgolion yn anghyson ag adroddiadau'r rhiant. Ni chafodd nifer o ddigwyddiadau eu gwneud yn hysbys i'r heddlu, ni chymerwyd camau dilynol mewn perthynas â hwy, neu fe ymchwiliwyd iddynt mewn modd annigonol. Roedd cyfathrebu rhyngasiantaethol yn amlwg yn wan. Roedd llais Violet Rose yn absennol o asesiadau Cymorth Cynnar a'r Gwasanaethau Plant, gyda gweithwyr proffesiynol yn dibynnu'n helaeth ar gyfrifon ei mam.

## 5) Arfer Da

Fe sicrhaodd ysgolion Violet Rose ei bod yn cael cymorth i ymdopi ag amgylchedd yr ysgol. Fe weithiodd ail ysgol Violet Rose yn galed i gasglu gwybodaeth gefndir gan ei hysgol gyntaf. Dangosodd y Tîm Argyfwng CAMHS arfer hyblyg o ran ceisio cefnogi unrhyw fylchau mewn gofal ac fe aeth y tu hwnt i'w gylch gwaith i barhau i gefnogi Violet Rose nes iddi gael ei hadolygiad meddygol.




## 6) Argymhellion

## 7) Argymhellion

4. Hyfforddiant gwell i'r holl weithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc â niwrowahaniaeth ac anawsterau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd

5. Datblygu llwybrau rhannu gwybodaeth eglur rhwng Ysgolion, CAMHS a Gwasanaethau Plant

6. Cryfhau prosesau trosglwyddo rhwng ysgolion

7. Gwella cofnodi ac adborth mewn Gwasanaethau Plant, MASH a CAMHS

8. Casglu gwybodaeth am lais y plentyn mewn perthynas ag asesiad Cymorth Cynnar a phan fo pryderon ynghylch Diogelu

9. Diwygio polisïau gwrth-fwlio i gynnwys canllawiau ynghylch digwyddiadau oddi ar y safle a'r ddyletswydd i hysbysu.

10. Defnyddio cronolegau pan wneir honiadau am fwlio

Mae gofyn i asiantaethau ddangos tystiolaeth o hyfforddiant, newidiadau i brosesau, a chydweithio gwell.

*Addaswyd o adnodd briffio 7 munud a grëwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*